

10<sup>fed</sup> o Hydref, 2022

**Taith Shakespeare  
Stratford-upon-Avon  
Dydd Iau, 27<sup>ain</sup> Hydref, 2022**

Annwyl Rhiant/ Gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am gyfle gwych i'ch plentyn fod yn rhan o daith yr adran Saesneg i ddinas hanesyddol Stratford-upon-Avon a man geni'r enwog, William Shakespeare **ar ddydd Iau, 27<sup>ain</sup> o Hydref**. Mae hyn yn gyfle gwych i gael taith o gwmpas man geni Shakespeare a derbyn darlithoedd gan arbenigwyr am y ddrama 'Macbeth' (sef y testun gosod ar hyn o bryd ym mlwyddyn 9).

Bydd cludiant i'r ddinas ac yn ôl i'r ysgol yn cael ei drefnu, ond bydd angen i ddisgyblion gyrraedd Bryn Tawe erbyn 7:30yb er mwyn cyrraedd Stratford-upon-Avon mewn da bryd. Mawr obeithiwn dychwelyd i Fryn Tawe erbyn rhyw 7:30yh (ond byddwn yn cadarnhau'r amser dychwelyd yn ystod y dydd). Ni fydd angen gwisgo gwisg ysgol, ond anogwn ddisgyblion i wisgo'n addas. Yn ystod yr ymweliad, bydd gan y disgyblion cyfle i fynd i archebu cinio yng nghanol y ddinas ac ymweld â'r ganolfan siopa leol.

Gofynnwn yn garedig am **gyfraniad o £35** er mwyn cynnal costau trafndiaeth ac ymweld â'r man geni/darlithoedd. Fel soniwyd eisoes, bydd cyfle i brynu cinio yn y ddinas, ond mae yna groeso i ddisgyblion ddod a pheccynnau bwyd gyda nhw. Byddai'n synhwyrol cael peth arian i'w wario.

A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen feddygol a'i dychwelyd, ynghyd â'r arian (neu siec yn daladwy i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe) cyn gynted ag y bo modd? Mae lle i 30 disgybl yn unig ar y daith, felly peidiwch ag oedi rhag ymateb i'r llythyr

Diolch am eich cydweithrediad a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau,



Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol a Phennaeth yr Adran Saesneg)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

[swyddfabryntawe5@hwbcymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR  
MEWN POBL** | Aur

